Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 15.03.2021

## Busnesau trin gwallt a barbwr: canllawiau'r coronafeirws i weithleoedd

O heddiw ymlaen, 15 Mawrth 2021, gall trinwyr gwallt/barbwyr ailagor drwy apwyntiad yn unig. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau canllawiau i'r sector ar sut i ailagor a gweithio'n ddiogel (gan gynnwys canllawiau ar ymweld â chwsmeriaid gartref). Ewch i:

https://llyw.cymru/busnesau-trin-gwallt-barbwr-canllawiaur-coronafeirws-i-weithleoedd

## Cronfeydd Busnes Cyfyngiadau Mawrth / Ebrill 2021 (i fusnesau sydd yn atebol am Drethi Annomestig yn unig)

Mae rhagor o wybodaeth bellach ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd. Bydd busnesau cymwys sy'n atebol am Ardrethi Annomestig yn/neu'n gallu cael £4,000 neu £5,000.

Bydd busnesau a gafodd gymorth ar gyfer Chwefror/Mawrth 2021 yn derbyn y taliad hwn yn uniongyrchol erbyn 31 Mawrth 2021 fan hwyrach – nid oes angen cyflwyno cais.

Bydd busnesau sydd wedi gwneud cais am daliad Chwefror/Mawrth 2021 ond sydd eto i dderbyn penderfyniad yn derbyn yr arian ychwanegol yn awtomatig os bydd eu cais yn llwyddiannus – nid oes angen cyflwyno cais.

Gall busnesau cymwys nad ydynt wedi hawlio taliad o'r blaen wneud cais am gymorth drwy lenwi ffurflen syml, ewch i:

http://bit.ly/CronBusCyfEbrill2021

Gall busnesau nad ydynt yn atebol am Ardrethi Annomestig, neu sy'n anghymwys i gael y grantiau Ardrethi Annomestig, nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny, barhau i wneud cais am Grant Dewisol Chwefror/Mawrth 2021, ewch i:

http://bit.ly/CronCyfMawrth2021

# Grantiau Treftadaeth

Mae ceisiadau wedi agor ar gyfer Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, o £3,000 hyd at £5 miliwn. Bydd y grantiau'n blaenoriaethu prosiectau sy'n cyfrannu at yr adferiad yn dilyn argyfwng y coronafeirws (COVID-19) a hefyd:

- sy'n hybu'r economi leol
- yn annog datblygiad sgiliau a chreu swyddi
- yn cefnogi lles
- yn creu gwell lleoedd i fyw, gweithio ac ymweld â nhw
- yn gwella cadernid sefydliad sy'n gweithio ym maes treftadaeth

Hefyd, mae'n rhaid i bob prosiect fedru dangos eu bod yn amgylcheddol gyfrifol ac yn integreiddio mesurau amgylcheddol i'w prosiectau.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

https://www.heritagefund.org.uk/cy/node/110834

# Ailagor llety gwyliau hunangynhwysol

- Bydd opsiynau ar gyfer ailagor a’r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud yn ystod yr adolygiad nesaf o’r rheoliadau ar 25 Mawrth 2021.

Roedd newyddlen diweddaraf Croeso Cymru ar 12 Mawrth 2021 yn cynnwys gwybodaeth am ddiffiniadau llety hunangynhwysol fyddai’n gallu ail-agor yn ddibynnol ar adolygiad 25 Mawrth 2021. Dim ond i aelodau o’r un aelwyd a’u swigen gymorth y gellir gosod llety, ac mae’n cynnwys:

- Gwestai a llety arall â gwasanaeth (e.e. Gwely a Brecwast, hosteli ac ati) sy’n darparu ystafelloedd en-suite ac sy’n gallu darparu prydau bwyd drwy wasanaeth ystafell.
- Llety arall sy’n gwbl hunangynhwysol (e.e. bythynnod hunanarlwyo, fflatiau, ac ati).
- Glampio neu unrhyw lety arall gyda chawod/baddon ensuite, toiledau a chyfleusterau cegin.
- Carafán gwyliau a Charafannau teithiol (gan gynnwys tymhorol), cartrefi modur a champerfans lle mae ganddynt eu cawod, toiled a chyfleusterau cegin eu hunain.

Bydd angen i Safleoedd Carafanau sicrhau bod canllawiau’r diwydiant ar waredu gwastraff a rennir a mannau dŵr yn cael eu dilyn yn llym. Bydd yr holl gyfleusterau a rennir, ar wahân i ddŵr a mannau gwaredu, yn aros ar gau gan gynnwys toiledau, blociau cawod, golchdy, clybiau nos, pyllau nofio. Gall bariau, bwytai a chaffis weithredu gwasanaeth tecawê yn unig. Am newyddlen 12 Mawrth 2021 Croeso Cymru, ewch i:

http://bit.ly/NewCroesoCymru12Maw2021

# Gweminarau Cyflymu Cymru i Fusnesau (CCIF)

Mae Cyflymu Cymru i Fusnesau yn parhau i gynnig cyrsiau ar-lein am ddim i helpu i roi’r sgiliau a’r gefnogaeth ddigidol i chi i sicrhau eich busnes am nawr

ac yn y dyfodol, gyda'r cyrsiau canlynol yn cael eu hychwanegu i ehangu eu hystod:

- Darparu Cyrsiau Ar-lein a Gwasanaethau Rhithwir
  http://bit.ly/3cpHHQ7

- Gweithio'n Gallach, Gweithio'n Fwy Diogel – Lefel Sylfaenol
  http://bit.ly/3cljj22

- Gweithio'n Gallach, Gweithio'n Fwy Diogel – Lefel Uwch
  http://bit.ly/3eurbkg

- Gwerthu Ar-lein (E-Fasnach) – Lefel Sylfaenol
  http://bit.ly/3cjm57X

- Gwerthu Ar-lein (E-Fasnach) – Lefel Uwch
  http://bit.ly/2OLRJTf

P'un ai a ydych chi'n newydd i dechnoleg ddigidol neu'n awyddus i wneud mwy o'ch presenoldeb ar-lein, mae gan Cyflymu Cymru i Fusnesau weminar fanwl yn aros amdanoch chi, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau

# Gweminar am ddim i fusnesau twristiaeth yn gweithredu ar Lwybr Arfordir Cymru 18 Mawrth 2021

Nod prosiect Curious Cymru Eryri-Bywiol yw codi amlygrwydd Llwybr Arfordir Cymru ar lwyfan Profiadau Airbnb drwy helpu i ddatblygu casgliad wedi'i guradu o gynhyrchion a phrofiadau unigryw sy'n arddangos diwylliant a thirweddau gwych ein rhanbarth. Cynhelir gweminar am ddim am 6:30pm ar 18 Mawrth 2021, a gyflwynir gan Emma Edwards-Jones. I gael rhagor o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3vbyHXk

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru